

## Ffydd, syml yn ei hanfod

*Y mae Esgob Joanna yn ein hannog i ddibynnu ar Graig yr oesoedd yn yr amserau ansicr hyn*

“Duw’r oesoedd yw dy noddfa, ac oddi tanodd y mae breichiau’r tragwyddol”, (Deuteronomium 33:27)

“Myfi yw goleuni’r byd. Ni bydd neb sy’n fy nghanlyn i byth yn rhodio yn y tywyllwch, ond bydd ganddo oleuni’r bywyd” (Ioan 8:12).



Nid ydym fyth yn gwybod beth sy rownd y gornel, ond fel arfer byddwn yn cymryd yn ganiataol y bydd pethau yn parhau yfory mwy neu lai fel y buont ddoe. Y mae trasiedi personol yn torri ar draws y teimlad o normalrwydd a pharhad ond yn y misoedd diwethaf hyn, yr ydym wedi profi’r ansefydlogrwydd, ofn a galar gyda’n gilydd. Ni wyddom beth sydd o’n blaenau na sut y mae pethau’n mynd i ddychwelyd at normalrwydd. Y mae’r pandemig coronafeirws nid yn unig wedi trawsnewid ein bywydau ond, ochr yn ochr â chynnwrf gwleidyddol ac economaidd gadael yr UE, hefyd wedi golygu ei bod yn amhosibl i ni wybod beth fydd ein normalrwydd newydd na pa bryd y cyrhaeddwn yno.

Dyma’r amser i ni “dynnu dŵr o ffynhonnau iachawdwriaeth” (Eseia 12:3). Fel Cristnogion, yr ydym yn cael ein galw o hyd i rodio mewn ffydd, i osod ein hymddiriedaeth nid yn ein hunain nac yn ein hamgylchiadau materol ond yn y Duw a’n creodd ni, sydd yn ein cynnal ac a’n ail greodd ni yng Nghrist ond, os ydyn ni’n onest, weithiau y mae Duw yn cael amser anodd i dorri trwy ein teimlad o hunan gynhaliath. Gwnaeth Covid-19 i ni sylweddoli pa mor fregus yw bywyd dynol a’r gymdeithas ddynol. Nid ydym wedi ein galw i fod yn ddewr, i ddiystyru ein galar a’n hofn ond i roi ein poen a’n gofid o flaen Duw, a fydd yn ein hateb. Bydd Duw yn ymateb i bob un ohonom wrth i ni ddod ag anawsterau a gofidiau sy’n ein wynebu o’l flaen.

“Dyma, yn awr, yr amser cymeradwy, dyma, yn awr, ddydd iachawdwriaeth” (2 Cor 6:2) Dyma’r amser i edrych i’r Iesu, goleuni’r byd, goleuni Cymru, goleuni ein hesgobaeth, ein heglwys, eich goleuni chi a’m goleuni innau. Amser Nadolig byddwn yn datgan “y mae’r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw’r tywyllwch wedi ei drechu ef” (Ioan 1:5) Y mae’ tywyllwch yn real ond ni all ddiffodd Iesu, goleuni’r byd. ‘Ceisia fy wyneb’ medd Duw wrth y salmydd, “ceisiaf dy wyneb, O Arglwydd” y mae’r salmydd yn ateb (Salm 27:8). Dyma’r amser i ni edrych ar oleuni Iesu gyda’n gilydd, i chwilio wyneb Duw ddydd ar ôl dydd a darganfod ynddo Ef ein hangor a’n gobaith yn yr amserau heriol hyn.